

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL**

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Llun 25 Medi 2017.

#### **Yn bresennol**

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G. E. Hopkins – yn cadeirio

#### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:-**

C. Leyshon, J. Rosser, R. Yeo, M. Weaver, S. Rees-Owen

#### **Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Mr C. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr G. Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Ms A. Batley – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant

Ms E. Pearce – Pennaeth Materion Diogelu a Chymorth

Ms G. Davies – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant

Ms J. Thomas – Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwellu Gwasanaeth

Mr J. O'Brien – Pennaeth Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc

Ms Z. Lancelott – Pennaeth Materion Ymgysylltu a Chyfranogiad

Ms T. Prosser – Rheolwr Gwasanaeth

Ms M. Meredith – Rheolwr Gwasanaethau Preswyl

Ms H. Williams – Swyddog Busnes y Cabinet

#### **Erail oedd yn bresennol:-**

Dr T. Garthwaite

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

**8. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu'r Aelodau i'r cyfarfod a daeth ymddiheuriadau gan y Cynghorydd J. James.

**9. DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**10. COFNODION A MATERION SY'N CODI**

**PENDERFYNWYD:**

- a) Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, ar 3 Mehefin 2017, yn rhai cywir.

Tynnodd y Cynghorydd S. Rees-Owen sylw'r Aelodau at dudalen 12 o'r cofnodion: 'Nododd Cadeirydd Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc – fod yr adroddiad o fudd a gofynnodd a oes modd i'r adroddiad gael ei gyfeirio i'r pwyllgor am sylwadau eraill.' Meddai'r Cynghorydd y byddai adroddiad ar 'Accommodation of Homeless 16 and 17 Year Old Children Working with Youth Offending Teams' yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.

**11. NEWID I DREFN YR AGENDA**

Newidiodd y Cadeirydd drefn yr agenda er mwyn cynnal yr hyfforddiant ar ddiwedd y cyfarfod.

**12. BLAENRAGLEN WAITH**

Rhoddodd Swyddog Busnes y Cabinet raglen waith ddrafft i'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn 2017/18.

Cyfeiriwyd y Bwrdd at y rhaglen yn atodiad 1 i'r adroddiad, ac eglurwyd bod modd diwygio'r ddogfen ar unrhyw adeg yn unol â dewisiadau'r Bwrdd.

Meddai'r Cadeirydd ei bod hi'n dda gweld rhaglen gadarn, a dylai Adroddiad Blyneddol y Bwrdd ar gyfer 2016/17 gael ei ychwanegu ati cyn ei chyflwyno i'r Cabinet.

Meddai Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant – y byddai adroddiad ar ddeilliannau addysgol yn achos plant sy'n derbyn gofal yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifanc – a gofynnodd a fyddai'r Bwrdd eisiau ei ystyried yn y cyfarfod nesaf. Cytunon nhw ar hyn.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

**PENDERFYNWYD:**

- a) Cymeradwyo'r rhaglen waith ddrafft, a bydd modd ei diwygio i adlewyrchu unrhyw flaenoriaethau sy'n newid yn ystod y flwyddyn;
- b) Cynnwys y ddau adroddiad ychwanegol yn y rhaglen ar gyfer mis Tachwedd:-
  - Bwrdd Rhianta Corfforaethol – Adroddiad Blynyddol 2016/17
  - Deilliannau addysgol yn achos plant sy'n derbyn gofal

**13. GWASANAETHAU CYMDEITHASOL – CWYNION A CHANMOLIAETHAU**

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodedb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol rhwng 1 Ionawr 2017 a 31 Mawrth 2017.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Esboniodd y swyddog fod 19 o gwynion anffurfiol wedi dod i law yn ystod y chwarter, sef ychydig yn llai na'r chwarter blaenorol. Roedd nifer y canmoliaethau a ddaeth i law hefyd ychydig yn llai, ond, yn gyffredinol, yn gyson â'r rhai a ddaeth i law yn ystod y chwarteri blaenorol.

Ailadroddodd y swyddog fod problemau o ran y graddfeydd amser yn parhau o ganlyniad i gymhlethdod y cwynion, ond, bydden nhw'n parhau i gael eu monitro.

Roedd yr Aelodau o'r Bwrdd yn falch o nodi bod eiriolwyr wedi codi materion a oedd yn amlygu llwyddiant y gwasanaeth.

Cododd y Cynghorydd S. Rees-Owen gwestiwn am y nifer fawr o faterion a oedd wedi eu codi yng Nghwm Cynon. Eglurwyd na fu cynnydd sylweddol yng Nghwm Cynon a bod nifer y cwynion yn parhau'n gyson, o ganlyniad i'r gweithwyr achos yn defnyddio'r ffordd gywir mewn modd effeithlon.

Cododd y Cynghorydd ail gwestiwn am y mater digartrefedd wedi ei amlinellu ar dudalen 55 o'r adroddiad, a gofyn pam nad oedd dim sylwadau wedi eu cynnwys. Meddai'r Rheolwr Cwynion fod y gŵyn wedi digwydd yn chwarter un, felly, mae'n bosibl nad oedd dim sylwadau pellach cyn ei chau, ond, byddai'n cael ei hymchwilio a byddai adroddiad ar gwynion am faterion digartrefedd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad a'r gwaith wedi ei gyflawni gan yr Uned Gwynion.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

**14. GWASANAETH CENEDLAETHOL EIRIOLAETH IEUENCTID – CWYNION**  
**CHWARTER 2**

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth adroddiad naratif chwarterol i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar ran Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuencid ('NYAS') ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill tan 30 Mehefin 2017.

Esboniodd y swyddog fod 16 o atgyfeiriadau wedi dod i law yn ystod y cyfnod, a bod y rhan fwyaf o'r bobl ifainc rhwng 17 oed ac 20 oed. Esboniwyd mai'r rheswm mwyaf tebygol dros hyn oedd bod Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuencid wedi cyflwyno cyfres o chwe sesiwn ymwybyddiaeth ar faterion eiriolaeth i bobl ifainc a'r Garfan 16+ mewn cyfleuster galw heibio ym Mhontypridd.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod nifer yr atgyfeiriadau yn achos plant a phobl ifainc sy'n destun y broses amddiffyn plant yn fach o'i chymharu ag awdurdodau lleol eraill, ac nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law yn ystod y chwarter.

Siaradodd y swyddog am waith hyfforddi, datblygu a hyrwyddo parhaus sy'n cael ei gyflawni gan Wasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuencid i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn y Fwrdeistref Sirol yn ymwybodol o'r gwasanaeth eirioli, a sut i fanteisio arno. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod Rhondda Cynon Taf yn parhau i arwain y ffordd o ran sicrhau byddai'r cynnig gweithredol yn helpu mwy o bobl ifainc i gyflawni eu deilliannau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad, ac ychwanegu byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd gael adroddiad blynyddol Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol y flwyddyn nesaf, i gael dealltwriaeth well o'r broses y tu ôl i gyflwyno'r cynnig gweithredol. Cytunodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc y byddai'n bwysig monitro cynnydd oherwydd bod hynny'n ofyniad newydd â diffyg data cymharol.

**PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Derbyn copi o adroddiad blynyddol Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol y flwyddyn nesaf

**15. CADW AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD ALLAN O'R CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, o dan Adran 100(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol. Bydd eglurder ymddygiad a gallu unigolion yn cael ei drafod a'i ystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, felly, oherwydd hynny, mae'n debygol na fydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

## **16. ADRODDIADAU O DAN REOLIAD 32**

Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 32 wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr, a Nant-gwyn.

Amlinellodd y swyddog grynodedb o ganlyniadau'r arolygiad. **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Estyn gwahoddiad blynyddol i Mr John Llewellyn Thomas i drafod y broses y tu ôl i'w adroddiadau
- c) Bydd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc yn cynnal trafodaethau pellach ag Uwch Swyddogion i benderfynu a ddylai dull fod ar waith wrth adrodd ar wybodaeth ynglŷn â Darparwyr Lleoliadau Annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**D.S.- Daeth y sesiwn gaeëdig i ben.**

## **17. HYFFORDDIANT I AELODAU**

Croesawodd y Cadeirydd Dr Tony Garthwaite – ymgynghorydd allanol – i'r cyfarfod, a chyflwynwyd pawb o amgylch y bwrdd.

Rhoddodd Mr Garthwaite gyflwyniad i'r Bwrdd, yna roedd trafodaeth anffurfiol – 'An overview of corporate parenting and good practice'.

Yn ystod yr hyfforddiant, dysgodd y Bwrdd am dair lefel cyfrifoldeb:

- dealltwriaeth fframwaith polisi/cyfreithiol
- bod yn gyfarwydd â phroffil plant lleol – a sut hwyl maen nhw'n ei gael
- ystyried anghenion plant sy'n derbyn gofal yn rhan o bob penderfyniad

Cymerodd Aelodau o'r Bwrdd ran mewn amrywiaeth o weithgareddau grŵp, a chael ail gyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant – a oedd, yn ei dro, yn eu galluogi nhw i gymharu gwaith y Bwrdd Rhianta Corfforaethol â diffiniadau 'arferion da'.

Roedd cyfle i'r swyddogion a'r staff fynegi eu barn yn ystod y sesiwn. Yn gyffredinol roedd pawb o'r farn bod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn amgylchedd cyfforddus a diogel lle mae modd cynnal trafodaethau agored sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Ar ôl trafodaethau ystyrlon, gadawyd y Bwrdd i ystyried y cwestiwn: 'Beth mae modd i ni ei wella?' Byddai'r cwestiwn yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol, os bydd unrhyw Aelod o'r Bwrdd o'r farn bod modd i'r Bwrdd wella.

Manteisiodd yr Is-gadeirydd ar y cyfle i ddiolch i Mr Garthwaite am gynnal y sesiwn hyfforddi, gan roi sylwadau ar ran y Bwrdd fod y sesiwn wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'r Aelodau ac i'r Swyddogion.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:50pm.**

**Y Cynghorydd G. Hopkins  
Cadeirydd**